**Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg**
**9 Gorffennaf 2025 rhwng 09:00 ac 11:00**
**Cofnodion**

| **Yn bresennol:** | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Teitl** | **Sefydliad** |
| Claire Beynon (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Tom Bowring (TB) | Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol | Cyngor Bro Morgannwg |
| Sarah Cutting (SC) | Uwch Swyddog Datblygu Cymunedol | Cyngor Bro Morgannwg |
| Rob Thomas (RT) | Prif Weithredwr | Cyngor Bro Morgannwg |
| Estella Enos (EE) | Uwch Reolwr Cymorth Gweithredol / Dirprwy Bennaeth | Gwasanaeth Prawf Cymru |
| Paul Warren (PW) | Rheolwr Gweithrediadau | Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg |
| Sarah Tipping (ST) | Pennaeth Partneriaethau ac Ymgysylltu | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Andy Robinson (AR) | Arweinydd Tîm Pobl a Lleoedd, Canolbarth y De | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Miki Miyata-Lee (MML) | Uwch Swyddog – Gweithrediadau Canolbarth y De | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Chris Ashley (CA) | Rheolwr Gorsaf | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| Karen Lamprey (KL) | Pennaeth Cynorthwyol - Cwricwlwm | Coleg Caerdydd a'r Fro |
| Elizabeth Jones (EJ) | Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau | Cyngor Bro Morgannwg |
| Kate Bishop (KB) | Rheolwr Busnes Strategol | Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg |
| Iain McMillan (IM) | Pennaeth Rheoli Adnoddau a Diogelu | Cyngor Bro Morgannwg |
| Marc Attwell (MA) | Pennaeth Cymunedau a Phartneriaethau | Heddlu De Cymru |
| Charles Janczewski (CJ) | Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| **Hefyd yn bresennol:** | | |
| Helen Moses (HM) | Rheolwr Gweithredol Strategaeth a Mewnwelediad | Cyngor Bro Morgannwg |
| Lloyd Fisher (LF) | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Mewnwelediad | Cyngor Bro Morgannwg |

| | | |
|---|---|---|
| Andreas Pieris-Plumley (APP) | Swyddog Polisi | Cyngor Bro Morgannwg |
| Kate Bishop (KB) | Rheolwr Busnes Strategol | Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg |
| Iain McMillan (IM) | Pennaeth Rheoli Adnoddau a Diogelu | Cyngor Bro Morgannwg |
| Sarah Tipping (ST) | Pennaeth Partneriaethau ac Ymgysylltu | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Estelle Hitchon (EH) | Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu | Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Y Cynghorydd Lis Burnett (LB) | Arweinydd | Cyngor Bro Morgannwg |
| Suzanne Rankin (SR) | Prif Weithredwr | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Judith Cole (JC) | Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau'r Gweithlu | Llywodraeth Cymru |
| Martin O'Keefe (MK) | Rheolwr Grŵp | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| Rachel Connor (RC) | Prif Swyddog Gweithredol | Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg |

| Rhif | Eitem Agenda | Camau Gweithredu |
|---|---|---|
| **1.** | **Croeso a Chyflwyniadau** - Rob Thomas, Prif Weithredwr, Cyngor Bro Morgannwg<br><br>Ceisiodd Rob gymeradwyaeth gan y Bwrdd iddo gadeirio'r cyfarfod gan nad oedd y Cynghorydd Burnett yn gallu mynychu. | |
| **2.** | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb** - Andreas Pieris-Plumley, Swyddog Polisi, Cyngor Bro Morgannwg<br>Fel y rhestrir uchod. | |
| **3.** | **Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 30 Ebrill 2025 -** Rob Thomas, Prif Weithredwr, Cyngor Bro Morgannwg<br><br>Cytunwyd bod y cofnodion yn adlewyrchiad gwir a chywir. | |
| **4.** | **Penodi i swyddi'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd -** Rob Thomas, Prif Weithredwr, Cyngor Bro Morgannwg<br><br>Enwebodd CJ LB i barhau yn rôl y Cadeirydd, gyda MA yn eilio'r enwebiad.<br><br>Rhoddodd HM wybod i'r bwrdd nad oedd unrhyw enwebiadau wedi'u derbyn ar gyfer swydd yr Is-gadeirydd ar ôl i'r Is-gadeirydd blaenorol sefyll i lawr o'r Bwrdd nac mewn perthynas â'r cais diweddar hwn.<br><br>Cytunwyd y byddai dirprwy yn cael ei benodi fesul achos yn absenoldeb y Cadeirydd. Esboniodd CJ na fyddai'n gallu cael ei enwebu fel is-gadeirydd gyda'i gyfnod yn y swydd yn dod i ben yn fuan. Nododd HM y gallai fod angen diwygio Cylch Gorchwyl y Bwrdd i adlewyrchu nad oes Is-gadeirydd. Anogodd CJ yr Aelodau i ystyried a allant ymgymryd â'r swydd cyn i'r Cylch Gorchwyl gael ei ddiwygio. | **LF i ddiwygio Cylch Gorchwyl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.** |

| | | |
|---|---|---|
| **5.** | **Diweddariad y Bwrdd Diogelu –** Iain McMillan, Pennaeth Rheoli Adnoddau a Diogelu, Cyngor Bro Morgannwg. Kate Bishop, Rheolwr Busnes Strategol, Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro.<br><br>Rhoddodd IM a KB ddiweddariad ar y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol (BDRh), gan dynnu sylw at esblygiad ei strwythur llywodraethu. Mae'r BDRh bellach yn gweithredu gyda dau is-grŵp allweddol: y Grŵp Cyflawni a'r Grŵp Adolygu Achosion. Y Grŵp Cyflawni, dan gadeiryddiaeth IM, gyda ffocws ar feysydd strategol fel polisi, hunanasesiadau, sicrwydd ansawdd, gweithgarwch arolygu a gweithredu fel y grŵp gorchwyl a gorffen datblygu gwasanaethau. Mae'r Grŵp Adolygu Achosion, dan gadeiryddiaeth Heddlu De Cymru, yn goruchwylio'r adolygiad o'r gwaith wedi'i wneud gan y BDRh, yn ystyried statws adolygiadau cyfredol ac yn olrhain cynnydd adolygiadau.<br><br>Esboniodd IM fod gweithredu'r broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) yn llwyddiannus wedi symleiddio'r adolygiad o achosion diogelu ar draws asiantaethau.<br><br>Amlinellodd IM rai o gyflawniadau allweddol y Bwrdd Diogelu dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys y rhain:<br>- Gweithredu'r strwythur llywodraethu newydd yn llawn, sydd wedi gwella eglurder ac atebolrwydd.<br>- Ymarferion hunanasesu blynyddol, a lywiodd ddatblygiad cynllun blynyddol y bwrdd.<br>- Ffocws o'r newydd ar hyfforddiant diogelu amlasiantaethol.<br>- Ymdrechion i fod yn fwy ystyriol o ddata, gan gynnwys cydweithio â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol i ddatblygu fframwaith perfformiad diogelu amlasiantaethol cenedlaethol.<br>- Gwell sicrwydd ansawdd gyda chynllun archwilio ffurfiol a fframwaith bellach ar waith.<br>- Lansio gwefan diogelu newydd, a ddisgrifir fel "siop un stop" ar gyfer hyfforddiant ac adnoddau, sydd wedi cael croeso gan ymarferwyr.<br>- Gweithgareddau'r Wythnos Diogelu Genedlaethol, a oedd yn canolbwyntio ar esgeulustod ac yn cynnwys lansio pecynnau cymorth esgeulustod oedolion a phlant.<br>- Cynnydd sylweddol wrth glirio ôl-groniad o adolygiadau achosion, diolch i gynllun gwella a mwy o hyfforddiant i adolygwyr.<br><br>Ymatebodd y bwrdd hefyd i themâu diogelu allweddol a nodwyd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol, cam-drin domestig, a materion ynghylch capasiti a chydsyniad. Gwnaeth y themâu hyn lywio ffrydiau gwaith wedi'u targedu a chynlluniau gweithredu.<br><br>Yna cyflwynodd KB flaenoriaethau'r bwrdd ar gyfer 2025–2026, sydd wedi'u strwythuro o amgylch pum maes effeithiolrwydd diogelu:<br>1. Proses Ddiogelu – Ffocws parhaus ar lywodraethu, dysgu o adolygiadau, a gweithredu'r cynllun hyfforddiant adolygiad diogelu unedig sengl.<br>2. Gweithgarwch a Data Amlasiantaethol - Datblygu set ddata ranbarthol, gwell protocolau rhannu gwybodaeth, ac alinio dysgu cenedlaethol a rhanbarthol.<br>3. Ymateb i Themâu Diogelu – Gwaith parhaus ar Gam-drin Plant yn Rhywiol (CPRh), cam-drin domestig gan gynnwys adolygu data cyfredol ar gam-drin domestig i bobl hŷn, diogelu drwy'r cyfnod pontio, a chapasiti a chydsyniad.<br>4. Adborth Defnyddwyr Gwasanaeth – Datblygu cynllun ymgysylltu a mecanweithiau i ymgorffori adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth ac ymarferwyr.<br>5. Gwybodaeth am y Gweithlu – Canolbwyntio ar y nifer sy'n cwblhau hyfforddiant, lles staff, a dathlu arfer da.<br><br>Nododd CJ fod diogelu yn parhau'n elfen bwysig o'n holl waith ar hyn o bryd. Gofynnodd CJ am lefel ymgysylltu partneriaid. Ymatebodd KB ac IM gan ddweud bod yr holl bartneriaid wedi dangos ymrwymiad cryf. Nodon nhw fod aelodaeth yn cael ei | **Sleidiau Cyflwyniad i'w rhannu.** |

| | | |
|---|---|---|
| | adolygu'n weithredol i sicrhau cynrychiolaeth ac effeithiolrwydd parhaus. Esboniodd KB fod prosesau da ar waith i sicrhau bod asiantaethau partner yn gallu nodi risgiau a chynnwys y rhain ar gofrestr risgiau'r Bwrdd fel bod y rhain yn cael eu rheoli.<br><br>Cododd HM y mater o gam-drin pobl hŷn ac awgrymodd gysylltu gwaith y Bwrdd â'r fenter oed-gyfeillgar. Croesawodd KB yr awgrym a chynigiodd ddilyn i fyny. Soniodd IM hefyd am ei ymwneud â grŵp cenedlaethol y Comisiynydd Pobl Hŷn a chynigiodd rannu deunyddiau ymgyrchu a dysgu perthnasol. | **LF i rannu manylion gwaith oed-gyfeillgar gyda KB, a thrafod cyfleoedd ar gyfer cydweithio pellach ag IM** |
| **6.** | **Eich Lle: Gwaith i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn cymunedau amddifad –** Sarah Cutting, Uwch Swyddog Datblygu Cymunedol, Cyngor Bro Morgannwg<br><br>Cyflwynodd SC ddiweddariad manwl ar y prosiect 'Eich Lle', sy'n anelu at fynd i'r afael ag amddifadedd yn y tair Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is ym Mro Morgannwg a nodwyd drwy Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru fel y rhai sydd ymhlith y 10% uchaf o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru. Y cymunedau hyn yw Gibbonsdown 2, Llys 3 a Buttrills 2.Esboniodd SC, drwy'r gweithgareddau ymgysylltu a gynhaliwyd fel rhan o'r prosiect, fod dros 1,500 o drigolion wedi cael eu hymgysylltu drwy ddigwyddiadau fel curo drws, cyfweliadau wyneb yn wyneb, ac arolygon. Mae hyn wedi cynnwys allgymorth i ysgolion, grwpiau ieuenctid, grwpiau cyn-filwyr, sefydliadau ffydd, a busnesau lleol. Datgelodd yr ymgysylltu newid mewn sgyrsiau cymunedol - o bryderon fel ceudyllau i faterion dyfnach fel iechyd meddwl, rhwystrau cyflogaeth, a mynediad at ofal iechyd.<br><br>Er mwyn nodi cyfleoedd yn ein cymunedau ymhellach, cynhaliwyd dau weithdy yn canolbwyntio ar Feysydd Incwm a Chyflogaeth ac Iechyd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mynychwyd y gweithdai gan ystod eang o weithwyr proffesiynol a chynrychiolwyr cymunedol, gan gynnwys Cynghorwyr, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Gyrfa Cymru, cynrychiolwyr o ysgolion uwchradd, ochr yn ochr â phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Nodwyd nifer o ganlyniadau allweddol drwy'r gweithdai, ar gyfer y ffrwd waith Incwm a Chyflogaeth ac roedd y rhain yn cynnwys:<br>- Gweithgareddau ar ôl yr ysgol i gefnogi llythrennedd a rhifedd rhieni.<br>- Prosesau recriwtio symlach ar gyfer rolau lefel mynediad, wedi'u treialu o fewn y Cyngor ac yn cael eu harchwilio gyda'r Bwrdd Iechyd a chymdeithasau tai.<br>- Ehangu allgymorth cyflogaeth, gan gynnwys gwell defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol a'r hysbysfyrddau cymunedol i wella ymwybyddiaeth o wasanaethau.<br><br>Yn y Gweithdy Iechyd roedd y ffrydiau gwaith a nodwyd yn cynnwys:<br>- Trafnidiaeth i apwyntiadau ysbyty, gan fynd i'r afael â rhwystr mawr i fynediad.<br>- Rhannu gwybodaeth amlasiantaethol, sy'n galluogi gweithwyr proffesiynol i gydlynu cymorth yn fwy effeithiol.<br>- Gwell offer cyfathrebu, gan gynnwys deunyddiau iaith blaen a mwy o weledd mewn digwyddiadau cymunedol.<br><br>Nododd SC fod data'r prosiect yn cael ei integreiddio i fentrau strategol ehangach, gan gynnwys Cynllun Creu Lleoedd y Barri a'r Cynllun Cymdogaeth ar gyfer y Barri sydd â £20 miliwn o gyllid gan Lywodraeth y DU. Mae SC bellach yn eistedd ar fwrdd y Cynllun Cymdogaeth ar gyfer y Barri i fwydo'r canfyddiadau o'r prosiect Eich Lle. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Bydd tîm yn mynd i'r Diwrnod Hwyl i'r Teulu Dechrau'n Deg ym mis Gorffennaf i siarad am sbwriel, tipio anghyfreithlon, a chynaliadwyedd. Bydd partneriaid fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, a thîm gwastraff y Cyngor yn cymryd rhan, ochr yn ochr ag artistiaid graffiti i ennyn diddordeb pobl ifanc.<br><br>Canmolodd TB waith SC ar y prosiect hwn a gofynnodd i'r Bwrdd ystyried sut y gall wneud newidiadau ac ymgymryd â gwaith fel rhan o Eich Lle i wella gwasanaethau yn y meysydd ffocws. Adleisiodd RT bwysigrwydd cynnal momentwm, ymddiriedaeth y gymuned a chyflawni canlyniadau diriaethol. Nododd ST fod y prosiect, a rôl SC yn enghraifft o'r cryfder y gall byrddau gwasanaethau cyhoeddus ei gyflawni, ac mae rhai canlyniadau rhagorol bellach yn dod allan o'r prosiect.<br><br>Pwysleisiodd MML yr angen am gyfathrebu diwylliannol berthnasol a'r angen i siarad mewn iaith symlach i sicrhau ymgysylltu.<br><br>Cynigiodd MA rannu mewnwelediadau o'r platfform 'De Cymru yn Gwrando' ac awgrymodd ymgysylltu dyfnach ag arweinwyr cymunedol. | **MA i rannu mewnwelediadau o 'De Cymru yn Gwrando' gyda SC** |
| **7**. | **Cynllun Partneriaeth Ranbarthol Diogelu Iechyd 2025-26** - Claire Beynon, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro<br><br>Cyflwynodd CB y Cynllun Diogelu Iechyd ar gyfer 2025–2026. Mae gan y Cynllun y nod strategol o ddarparu system diogelu iechyd effeithiol mewn partneriaeth, sy'n ychwanegu gwerth at wasanaethau presennol a'r systemau a sefydlwyd yn ystod pandemig COVID-19, ac sy'n gallu atal, trin a lliniaru'r risg sy'n gysylltiedig â chylch gwaith clefydau trosglwyddadwy pob perygl.<br><br>Amlinellodd CB y camau gweithredu allweddol ar gyfer eleni, sy'n cynnwys cryfhau perthnasoedd â chydweithwyr gofal sylfaenol a thrydydd sector, datblygu strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu, a datblygu a phrofi cynllun ymateb i bandemig.<br><br>Canmolodd TB a CJ y dull cydweithredol o ddatblygu'r cynllun a roddwyd ar waith. Nododd TB yn arbennig y gwaith a wnaed mewn partneriaeth â chydweithwyr y gwasanaethau rheoliadol a rennir ar ddiogelu iechyd. Nododd TB fân ddiwygiad ynglŷn â chwmpas y rhaglen HIV (Fast Track) sy'n cwmpasu Caerdydd a Bro Morgannwg, a chytunwyd i ddiwygio hyn. | **CB i ddiwygio'r Cynllun ynghylch cwmpas y rhaglen Fast Track.** |
| **8.** | **Adroddiad Blynyddol 2024-25 y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** - Lloyd Fisher, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Mewnwelediad Cyngor, Bro Morgannwg<br><br>Cyflwynodd LF Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n crynhoi cynnydd yn erbyn yr amcanion lles, ffrydiau gwaith blaenoriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a'r 19 cam a amlinellir yng Nghynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r adroddiad blynyddol yn adeiladu ar adroddiad cynnydd 6 mis y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddod ag astudiaethau achos manwl a chyfraniadau gan yr holl sefydliadau partner ynghyd i nodi'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus dros y flwyddyn ddiwethaf. Esboniodd LF fod cymeradwyaeth yn cael ei geisio gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol i'w gyhoeddi. Cymeradwyodd y bwrdd yr Adroddiad Blynyddol.<br><br>Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i bwyllgor craffu Adnoddau'r Cyngor ar 17 Medi, nododd LF fod Cynghorwyr wedi gofyn a fyddai partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau | **Aelodau sydd â diddordeb mewn mynychu Pwyllgor Craffu'r** |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyhoeddus yn gallu mynychu'r Pwyllgor. Gofynnodd LF a allai unrhyw bartneriaid fynychu'r pwyllgor ac os felly i gysylltu â LF neu HM. | **Cyngor i gysylltu â LF neu HM.** |
| **9.** | **Cynllun Strategol Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Caerdydd a Bro Morgannwg (2025-2030) –** Claire Beynon, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro<br><br>Cyflwynodd CB Gynllun Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Caerdydd a'r Fro (2025–2030), sy'n cyd-fynd â strategaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yn cynnwys fframwaith cyflawni uchelgeisiol ac yn pwysleisio pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth.<br><br>Nododd CJ fod y Cynllun Strategol, ac agenda ehangach y cyfarfod yn adlewyrchu pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth.<br><br>Nododd MA y dadansoddiad trawiadol yn y Strategaeth ac awgrymodd y dylai busnesau preifat, ochr yn ochr â sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector, hefyd gael rôl wrth fynd i'r afael â'r mater hwn.<br><br>Cefnogodd RT hyn ac awgrymodd archwilio cyfleoedd ar gyfer cyfathrebu cyfrifoldeb ar y cyd y sector cyhoeddus ac ehangach i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y Strategaeth. Cytunodd CB a chynigiodd ystyried y camau nesaf. | |
| **10**. | **Blaenraglen Waith 2025** Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Fro<br><br>Amlinellodd HM yr eitemau agenda sydd ar ddod ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, gan gynnwys Adroddiad Blynyddol y Mudiad Bwyd Da ym mis Medi, trafodaeth ar Adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a diweddariad posibl ar Gynllun y Barri ar gyfer Cymdogaethau a gwaith adfywio ym mis Rhagfyr. Cynigiodd RT gynnal cyfarfod mis Rhagfyr yn bersonol i hwyluso trafodaethau dyfnach, awgrym a gefnogwyd gan CB a CJ. | |
| **11.** | **Unrhyw fater arall**<br><br>Esboniodd HM fod Hunanasesiad Blynyddol y Cyngor wedi cael ei ddosbarthu i bartneriaid drwy e-bost i'w ystyried, gofynnwyd am i unrhyw adborth gael ei gyflwyno erbyn 15 Awst.<br><br>Diweddarodd TB y bwrdd o ran y ffaith bod cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a enwebwyd gan Bwyllgor Cyswllt Cymunedol y Fro wedi ymddiswyddo o'i swydd. Bydd y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol nawr yn ceisio enwebu cynrychiolydd newydd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gan sicrhau pwysigrwydd parhau i gynrychioli’r cyngor cymuned. | |
| **12.** | **Dyddiad y cyfarfod nesaf - 24 Medi 2025** | |